



Tystiolaeth ysgrifenedig Alcohol Concern i Bwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru)

Egwyddorion cyffredinol

1.0 Mae Alcohol Concern yn cefnogi'n gryf egwyddorion Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru). Er bod y cyfanswm o alcohol a yfir yng ngwledydd Prydain wedi lleihau ychydig yn ystod y blynyddoedd diwethaf,¹ mae'n eglur fod angen gwneud rhagor er mwyn lleihau'r niwed i'n hiechyd a'n cymdeithas sy'n dod o gamddefnyddio alcohol. Nid yw'r fath niwed yn anochel, ac mae rheoli pris alcohol yn un ffordd bwysig i fynd i'r afael ag ef.

1.1 Yn 2011, cyhoeddodd Prifysgolion Bangor a Glyndŵr arolwg o'r dystiolaeth o bedwar ban byd ar y ffactorau sy'n dylanwadu ar batrymau yfed. Roedd ganddynt un casgliad pendant iawn: "O fewn y llenyddiaeth ryngwladol ar leihau yfed alcohol a'r niwed sy'n deillio o alcohol, y syniad a chanddo'r sylfaen fwyaf cadarn o dystiolaeth yw bod y cyfanswm a yfir yn sensitif iawn i newidiadau prisiau (neu, a bod yn fanwl gywir, newidiadau o ran pa mor fforddiadwy yw yfed). Pan fydd pris alcohol yn gostwng, fe yfir mwy; pan ddaw alcohol yn ddrutach, fe yfir llai. Gwelir yr effaith hon ar draws y boblogaeth gyfan sy'n yfed alcohol".²

1.2 Hyd yn hyn ym Mhrydain, trethi fu'r dull arferol i ymyrryd â phris alcohol. Er hynny:

- Mae cyfundrefn tollau alcohol y Deyrnas Unedig yn gyforiog ag anghysondebau hanesyddol ac nid yw'r doll sydd i'w thalu ar ddiod bob tro'n gyfateb yn agos i'w chryfder.³ Er enghraifft, hyd yn oed ar ôl gwireddu'r addewid diweddar gan y

¹ Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain (2017) *Statistical handbook 2017*, Llundain, BBPA.

² Bailey, J. et al. (2011) *Achieving positive change in the drinking culture of Wales*, Wrecsam, Prifysgol Glyndŵr.

³ op. cit. Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain.

Canghellor ynghylch trethi seidr, bydd y doll ar bob seidr gyda chryfder rhwng 1.3% a 6.8% yn dal i fod yr un peth â'i gilydd⁴

- Mae ymchwil wedi dangos, pan godir y tollau ar rai diodydd, bod rhai o'r siopau bwyd mawrion yn trosglwyddo mwy o'r doll ychwanegol i'w diodydd canolig ac uchel eu prisiau, er mwyn cadw eu diodydd rhataf yn rhad;⁵ ac mae ambell cwmni cynhyrchu diodydd wedi dweud yn gwbl agored eu bod yn talu'r doll ychwanegol eu hunain er mwyn peidio â chodi prisiau i yfwyr.⁶

1.3 Gosodwyd ffurf ar isafbris am alcohol yng Nghymru a Lloegr yn 2014 pan gyflwynodd y Canghellor ddeddfwriaeth yn gwahardd gwerthu unrhyw ddiodydd am lai na cyfanswm y doll a'r Dreth ar Werth arni. Cadw "busnesau rhag gwerthu alcohol ar brisiau disgownt" oedd bwriad y mesur, er mwyn lleihau "diota gormodol ac effeithiau fel troseddau sy'n ymwneud ag alcohol a niwed i iechyd."⁷ Er hynny, trothwy isel iawn yw hwn, ac effeithiodd y mesur ar lai nag 1% o ddiodydd alcoholaidd.⁸ Daeth ymchwilwyr i'r casgliad na chafodd "bron dim effaith ar gyfanswm yfed y boblogaeth, nac ar wariant na niwed sy'n deillio o alcohol".⁹

1.4 Mae pennu isafbris am bob uned o alcohol a werthir yn ddull mwy effeithiol, mwy penodol a thecach i reoleiddio pris alcohol, am ei fod yn cyfateb yn fanwl gywir i ba faint o alcohol pur (ethanol) sydd mewn unrhyw wydraid, potelaid neu ganaid o ddiodydd (bydded honno'n gwrw, seidr, gwin, gwirod neu ddiodydd gymysg) ymha le bynnag y'i gwerthir hi (mewn tafarn, clwb, bwyty neu siop). Trwy osod pris gwaelodol na ellir gwerthu un uned o alcohol (10ml o ethanol) islaw iddo, bydd yr isafbris yn effeithio'n anad dim ar y diodydd sydd ar werth am y prisiau isaf o gymharu â'u cryfder alcoholaidd – diodydd sy'n cael eu hyfed yn aml gan y rhai sy'n yfed yn drymaf.^{10, 11} Bydd hyn i'w weld yn amlycaf yn achos y seidrau gwyn – diodydd nad oes fawr ddim galw amdanynt ar wahân i ymhlith pobl sy'n ddibynnol ar alcohol.^{12, 13} Ar y llaw arall, ni fydd yr isafbris yn effeithio'n ariannol nemor ddim ar y rhai

⁴ Trysorlys ei Mawrhydi (2017) *Autumn Budget 2017: duty on high strength ciders*, Llundain, Trysorlys ei Mawrhydi, ar-lein, ar gael trwy:

https://www.gov.uk/Llywodraeth/uploads/system/uploads/attachment_data/file/661438/duty_on_high_strength_ciders.pdf [cyrchwyd 22 Tachwedd 2017].

⁵ Ally, A. K. et al. (2014) *Alcohol tax pass-through across the product and price range: do retailers treat cheap alcohol differently?*, *Addiction*, 109(12), tt1994-2002.

⁶ Turney, E. (2010) *Magners absorbs cider duty hike*, *Morning Advertiser*, 26 Mawrth 2010.

⁷ Swyddfa Gartref (March 2017) *Guidance on banning the sale of alcohol below the cost of duty plus VAT*, Llundain, Swyddfa Gartref.

⁸ Brennan, A. et al. (2014) *Potential benefits of minimum unit pricing for alcohol versus a ban on below cost selling in England 2014: modelling study*, *BMJ*, Medi 2014.

⁹ Meng Y. et al. (2014) *Model-based appraisal of minimum unit pricing for alcohol in Wales: An adaptation of the Sheffield Alcohol Policy Model version 3*, Sheffield: SchARR, Prifysgol Sheffield.

¹⁰ Alcohol Concern (2015) *Alcohol brands consumed by young people in treatment 2015*, Llundain, Alcohol Concern, 2015.

¹¹ Holmes, J. et al. (2014) *Effects of minimum unit pricing for alcohol on different income and socioeconomic groups: a modelling study*, *The Lancet*, 10 Chwefror 2014.

¹² Goodall, A. (2011) *White cider and street drinkers: recommendations to reduce harm*, Llundain, Alcohol Concern.

¹³ Chick, J. et al. (2016) *Alcohol pricing and purchasing among heavy drinkers in Edinburgh and Glasgow*, Llundain, Alcohol Research UK.

sy'n yfed yn gymedrol (o fewn canllawiau Prif Swyddogion Meddygol y Deyrnas Unedig). I'r fath yfwyr cymedrol, rhagwelir costau ychwanegol o ychydig o bunnoedd y flwyddyn (neu ychydig o geiniogau'r wythnos).¹⁴ Felly, mae polisi'r isafbris yn cyd-fynd yn dda â'r egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus: sef gwneud dim ond yr hyn sydd angen ei wneud, dim mwy, dim llai; a lleihau amrywiadau amhriodol gan ddefnyddio arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth.¹⁵

1.5 Nid oes ychwaith fodd i fanwerthwyr osgoi'r isafbris fel y gwnaethpwyd i raddau yn achos gwaharddiad yr Alban yn 2010 ar ddisgowntiau am brynu rhagor (fel tair potelaidd am bris dwy), lle gwelwyd bod "y diwydiant i'w weld yn ymateb i'r gwaharddiad trwy leihau prisiau eitemau unigol yn lle cynnig bargeinion aml-brynu."¹⁶

Canlyniadau anfwriadol

2.0 Gan mai Cymru a'r Alban fydd tiriogaethau cynta'r byd i gyflwyno isafbris am alcohol ar yr union ffurf hon, mae'n gwbl bosibl y bydd canlyniadau annisgwyl neu anfwriadol, yn union fel gydag unrhyw bolisi neu fentr newydd. Am yr rheswm hwn, mae Alcohol Concern yn credu bydd angen pwyso a mesur yn drylwyr effeithiau'r isafbris (fel y bydd yn digwydd yn yr Alban fel rhan o'r broses Monitro a Gwerthuso Strategaeth Alcohol yr Alban).¹⁷ Yn y ddwy diriogaeth, bydd hyn yn rhoi cyfle unigryw i astudio'n ofalus goblygiadau'r isafbris ar lawr gwlad. Yn yr un modd, bydd yn fuddiol pennu dyddiad neu 'machlud' pryd y bydd rhaid adolygu a yw'r mesur wedi lleihau niwed yn unol â'i fwriad, a'i ddiwygio neu'i ddiddymu yn ôl yr angen.

Rydym wedi ymdrin isod â rhai o ganlyniadau posibl gosod isafbris.

A fydd yr isafbris yn taro'r tafarndai?

2.1 Bydd effeithiau'r isafbris i'w teimlo'n anad dim yn yr archfarchnadoedd a siopau eraill yn hytrach nag mewn tafarndai, clybiau a bwytai. Bu Alcohol Concern yn ymweld â nifer o siopau ym misoedd Hydref a Thachwedd 2017, gan ganfod cryn nifer o ddioddydd ar werth

¹⁴ op. cit. Meng Y. et al.

¹⁵ Llywodraeth Cymru (2015) *Gofal iechyd darbodus – pennu'r egwyddorion darbodus*, ar-lein, ar gael trwy: <http://www.prudenthealthcare.org.uk/pedair-egwyddor-gofal-iechyd-dabodus/> [cyrchwyd 28 Tachwedd 2017].

¹⁶ Datganiad i'r wasg gan Brifysgol Caergrawnt (2013), *New study reveals that the ban on alcohol multi-buy promotions in Scotland did not reduce the amount of alcohol purchased*, ar-lein, ar gael trwy: <http://www.cam.ac.uk/research/news/new-study-reveals-that-the-ban-on-alcohol-multi-buy-promotions-in-scotland-did-not-reduce-the-amount> [cyrchwyd 29 Tachwedd 2017].

¹⁷ Gweler: <http://www.healthscotland.scot/health-topics/alcohol/monitoring-and-evaluating-scotlands-alcohol-strategy> [cyrchwyd 17 Tachwedd 2017].

am lai na 50c yr uned, sef trothwy mwyaf tebygol yr isafbris. Roedd y diodydd hyn yn cynnwys:

- 70cl o fodca neu jin am £10.00: 38c yr uned
- 70cl o win cadarn am £2.99: 27c yr uned
- 3 litr o seidr cryf am £3.99: 18c yr uned.¹⁸

Ar y llaw arall, pan edrychasom ar brisiau diodydd poblogaidd mewn tafarnau a barrau,¹⁹ seidr am 98c yr uned oedd y ddiod rataf a welsom, bron i ddwywaith yr isafbris tebygol o 50c yr uned. Ar gyfartaledd mewn tafarndai, roedd seidr ar werth am £1.36 yr uned, cwrw am £1.43 yr uned, a gwin coch am £1.53 yr uned.²⁰

2.2 Mae rhai tafarnwyr yn credu y gallai'r isafbris fod yn fanteisiol iddynt trwy unioni prisiau i ryw raddau rhwng siopau a thafarndai. Pan gynhaliodd Alcohol Concern arolwg o dafarnwyr Cymru yn 2012, gwelsom fod 77% o blaid isafbris o 50c yr uned, a bod 94% yn credu bod alcohol rhad yr archfarchnadoedd yn tanseilio eu busnes.²¹ Yn fwy diweddar, dangosodd arolwg o dafarnwyr ar draws Prydain fod 83% ohonynt yn credu bod alcohol yr archfarchnadoedd yn rhy rad, a bod 73% yn meddwl y dylai codi ei bris fod yn flaenoriaeth i wleidyddion er mwyn mynd i'r afael â phroblemau alcohol.²² Yn 2010, nododd Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig y Cynulliad eu barn fod "alcohol rhad mewn archfarchnadoedd...yn tanseilio'r cynhyrchwyr llai hynny sy'n ymdrechu i ddatblygu a gwerthu cynnyrch o safon, yn ogystal â bygwth dyfodol tafarnau cymunedol".²³

Annog creu diodydd llai alcoholaidd

2.3 Un canlyniad anfwriadol ond dymunol a allai ddeillio o osod isfabris yw y gallai annog cynhyrchwyr i fynd ati i greu mwy o diodydd llai alcoholaidd neu leihau cryfder rhai o'u brandiau presennol, gan gynnig mwy o ddewis i yfwyr sydd am gymedroli. Gwelwyd effaith gyffelyb wedi i'r doll ar gwrw gwannach na 2.8% cael ei haneru yn 2011.²⁴ Ymhen blwyddyn, dywedwyd bod gwerthiant y fath gyrfau wedi codi mwy na 40% ar draws y wlad.²⁵

¹⁸ Mae canlyniadau llawn yr arolwg ar gael gan Alcohol Concern Cymru.

¹⁹ Seidr Strongbow neu Magners gyda chryfder o 4.8%, cwrw Heineken neu San Miguel gyda chryfder o 5% ABV, a gwin Merlot rhwng 12.5% a 13.5% oedd diodydd yr arolwg.

²⁰ Mae canlyniadau llawn yr arolwg ar gael gan Alcohol Concern Cymru.

²¹ Alcohol Concern (2012) *Isafbris am alcohol – yr effaith ar dafarndai*, Caerdydd, Alcohol Concern.

²² Sefyliad Astudiaethau Alcohol (2017) *Pubs quizzed: What publicans think about policy, public health and the changing trade*, Llundain, IAS.

²³ Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2010) *Y diwydiannau gwin, cwrw, seidr a gwirodydd*, Caerdydd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

²⁴ Leicester, A. (2011) *Alcohol pricing and taxation policies*. Nodyn briffio IFS BN124, Llundain, Sefydliad Astudiaethau Cyllidol.

²⁵ Roberts, G. (2012) *Low-alcohol beers show their true calibre*, The Independent on Sunday, 18 Mawrth 2012 ar-lein, ar gael trwy: <http://www.independent.co.uk/life-style/food-and-drink/news/low-alcohol-beers-show-their-true-calibre-7576435.html> [cyrchwyd 17 Tachwedd 2017].

2.4 Cymerwn esiampl i ddangos effaith bosibl yr isafbris ar gryfder diodydd. Fel arfer mae gwin yn 12% neu 13% alcohol, ac mae potelaid o win arferol felly'n cynnwys 9 neu 10 uned o alcohol. O edrych ar Sauvignon Blanc 12.5% sydd ar werth ar hyn o bryd mewn siop adnabyddus am £3.89,²⁶ mae pob potelaid yn cynnwys ychydig mwy na 9 uned. Gydag isafbris o 50c yr uned, ni ellid ei werthu am lai na £4.69. Ond, trwy leihau'r cryfder alcoholaidd o 12.5% i 10%, ni fydd ynddo ond 7½ uned, a chydag isafbris o 50c yr uned gellid ei werthu am £3.75, sef llai na'r pris ar hyn o bryd. O gofio i gryfder gwinoedd godi yn raddol yn ystod y 10 i 20 mlynedd ddiwethaf, gallai lleihad o'r fath fod yn llesol iawn.²⁷ Mae Llywodraeth yr Alban eisoes wedi awgrymu, o ran eu mesur isafbris nhw, ei bod yn "bosibl y bydd cyflwyno'r mesur yn annog cynhyrchwyr i gynhyrchu diodydd alcoholaidd llai cryf gan y gellid eu gwerthu'n rhatach".²⁸

Croesi Clawdd Offa i siopa

2.5 Clywir awgrymiadau weithiau y bydd gosod isfabris yng Nghymru yn gyrru cwsmeriaid sy'n byw'n agos i'r ffin i brynu eu halcohol yn Lloegr. Mae pobl eisoes yn siopa am fwyd a diod ar draws y ffin, wrth gwrs, lle y gwelant ei fod yn gyfleus; ond byddai unrhyw dwf o ran siopa am alcohol yn benodol yn dibynnu ar ba mor barod yw cwsmeriaid i deithio, ac ar wahaniaeth digonol rhwng prisiau alcohol i gyfiawnhau costau'r daith. O ran eu mesur isafbris nhw, mae Llywodraeth yr Alban wedi dod i'r casgliad "ar gyfer y rhan fwyaf o Albanwyr, byddai pwrcasu yn Lloegr yn dod â chostau amser ac arian...a fyddai'n debygol o fod yn fwy nag unrhyw arbedion ar bris alcohol".²⁹ Yn yr un modd, pan fu pobl yn teithio o Weriniaeth Iwerddon i Ogledd Iwerddon er mwyn manteisio ar brisiau alcohol is, gwelwyd mai bwydydd a diodydd rhatach at ei gilydd oedd y rheswm, nid alcohol yn neilltuol.³⁰ (Mae'n debyg mai'r gymhariaeth â Gogledd Iwerddon yw'r fwyaf perthnasol yn hyn o beth, gan fod y wlad honno, fel Cymru, yn eithaf bach a chanddi ffin gymharol hir â'r diriogaeth nesaf; cymharol fyr yw ffin yr Alban â Lloegr, a go bell o brif ganolfannau poblogaeth yr Alban).

2.6 Yn 2011, edrychodd ymchwilyr ym Mhrifysgolion Bangor a Glyndŵr ar dystiolaeth ryngwladol ar brynu alcohol ar draws ffiniau, a daethant i'r casgliad "at ei gilydd, nad yw'r dystiolaeth yn awgrymu'n ddi-wahân fod lleihau pa faint y mae alcohol ar gael mewn un ardal yn arwain yn syml at deithio i ardaloedd gyda rheolau llacach" a bod "carfan sylweddol

²⁶ Gweler: <https://www.lidl.co.uk/en/White-Wine-3659.htm?articleId=1384> [cyrchwyd 17 Tachwedd 2017].

²⁷ Alston, J.M. et al. (2011) *Too much of a good thing? Causes and consequences of increases in sugar content of California wine grapes*, Journal of Wine Economics, Cyf. 6, Rhif. 2, Hydref 2011.

²⁸ Llywodraeth yr Alban (2012) *Final business and regulatory impact assessment for minimum price per unit of alcohol as contained in Alcohol (Minimum Pricing) (Scotland) Bill*, Caeredin, Llywodraeth yr Alban.

²⁹ *ibid.*

³⁰ *ibid.*

o'r boblogaeth yn dewis yfed llai yn lle teithio i brynu alcohol".³¹ Yn 2016, datguddiodd ymchwilyr ym Mhrifysgolion Caerdydd ac Abertawe gysylltiad cryf rhwng arferion yfed pobl a pha mor bell roeddynt yn byw o'u ffynhonnell alcohol agosaf, gan awgrymu bod pobl yn amharod i deithio mwy nag ychydig funudau i brynu alcohol.³²

2.7 Mae rhai wedi hel atgofion am Ddeddf Cau'r Tafarndai ar y Sul 1881, a oedd yn cadw ambell ran o Gymru'n 'sych' ar y Sul hyd at 1991. Er bod yr ymdrechion i ochr-gamu'r ddeddf hon wedi dod yn chwedlonol – "ymdaith y Sul dros ffin i Loegr at ddibenion diota", chwedl un o Archesgobion Cymru"³³ – nid teithio i gyrchu alcohol oedd y prif fodd i osgoi'r ddeddfwriaeth hon ond manteisio ar yr eithriad a ganiatâi yfed fel y mynnid mewn adeilad preifat.³⁴

Gwerthu ar-lein ar draws y ffin

2.8 Mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn dweud y "bydd angen i fusnesau ar-lein a busnesau symudol sydd wedi'u trwyddedu y tu allan i Gymru sicrhau eu bod yn codi tâl sy'n unol â'r isafbris uned pan fyddant yn cyflenwi i gwsmeriaid yng Nghymru" ond "na fydd busnesau symudol ac ar-lein a drwyddedir yn Lloegr wedi'u heffeithio gan y ddeddfwriaeth wrth gyflenwi alcohol gwsmeriaid yng Nghymru a Lloegr".³⁵ Er hynny, mae'n werth nodi bod canllawiau 2015 y Swyddfa Gartref ar Ddeddf Drwyddedu 2003 yn dweud bod alcohol yn cael ei werthu, o dan y gyfraith, yn y lle y caiff ei "feddiannu i'r contract (sef y lle y caiff ei adnabod a'i neilltuo ar gyfer ei ddsbarthu i'r prynwr" yn hytrach nag yn y lle mae'r prynwr yn talu amdano.³⁶ Felly, hyd yn oed os yw cwsmer yng Nghymru yn prynu alcohol am lai na'r isafbris trwy wefan sydd y tu allan i Gymru (fel y mae llawer o wefannau'r siopau mawrion) ni ellid pacio'r archeb na'i dosbarthu o siop neu stordy yng Nghymru.

2.9 Pan gyflwynodd Llywodraeth yr Alban waharddiad yn 2010 ar ddisgowntiau am brynu mwy nag un eitem o alcohol, cyhoeddodd Tesco y byddent yn ei osgoi trwy ddefnyddio canolfannau dosbarthu yn Lloegr;³⁷ ond nid yw'n glir i ba raddau y digwyddodd hyn mewn gwirionedd, ac ni wnaeth yr un cwmni mawr arall gyhoeddiad cyffelyb. Mae Tesco a Sainsbury's ill dau yn dosbarthu bwyd a diod a brynir ar-lein o'u siopau lleol, ac yn achos

³¹ op. cit. Bailey, J. et al.

³² Fone, D. et al. (2016) *Change in alcohol outlet density and alcohol-related harm to population health (CHALICE): a comprehensive record-linked database study in Wales*, Public Health Research 4(3),1.10.3310/phr04030

³³ Morris A.E. (1961) *The Christian use of alcoholic beverages*, Rhisga, Gwasg y Ddrudwen.

³⁴ Alcohol Concern (2010) *Cenedl o ddiotwyr? Cymru ac alcohol*, Caerdydd, Alcohol Concern.

³⁵ Llywodraeth Cymru (2015) *Bil Drafft Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol*, Caerdydd, Llywodraeth Cymru..

³⁶ Swyddfa Gartref (2017) *Revised guidance issued under section 182 of the Licensing Act*, Llundain, Swyddfa Gartref.

³⁷ BBC Scotland Online (2011) *Online loopholes in Scottish alcohol bill*, ar-lein, ar gael trwy: <http://www.bbc.co.uk/news/uk-scotland-15123533> [cyrchwyd 17 Tachwedd 2017].

Tesco dyna sy'n caniatáu iddynt gynnig ddsbarthu ar ddiwrnod yr archeb i 98% o aelwydydd Prydain.^{38, 39} Byddai symud oddi wrth y fath fodel dosbarthu er mwyn osgoi'r isafbris yng Nghymru yn dod â chostau ychwanegol sylweddol, ac anodd yw ei ragweld yn digwydd.

Cwrw cartref

2.10 Er bod rhai yn sôn am fragu cartref fel modd i osgoi'r isafbris,⁴⁰ go brin y gellid ei ragweld yn tyfu i fod yn fwy na hobi i leiafrif fechan, fel y mae ar hyn o bryd,⁴¹ yn bennaf oherwydd ei fod yn gofyn am gryn ymdrech, gwariant ac amynedd. Yn ôl ein hymchwil ni, trwy brynu'r cynhwysion bragu cartref rhataf gellir cynhyrchu 40 pint o gwrw am tua 13c yr uned (tua ¼ yr isafbris tebygol) ond mae angen gwario rhyw £48 ar offer er mwyn dechrau bragu (gan godi pris y 40 pint cyntaf i 66c yr uned) a bydd pob casgennaid o gwrw yn cymryd 3 neu 4 wythnos i fod yn barod i'w yfed.⁴²

Gwerthu alcohol yn groes i'r gyfraith

2.11 Mae cryn bwyslais gan rai rhannau o'r diwydiant diodydd ar faint a phwysigrwydd y farchnad alcohol anghyfreithlon (sef alcohol na thalwyd treth arno) ym Mhrydain, ond mae'n debyg bod eu buddiannau masnachol eu hunain yn un rheswm dros eu pryder. Mae Cymdeithas y Fasnach Win a Gwirodydd (WSTA) yn tynnu sylw at alcohol anghyfreithlon yng nghyd-destun ymgyrchu dros leihau'r tollau ar gynhyrchion eu haelodau, gan honni bod maint y tollau ar hyn o bryd yn "annog twyllo".⁴³ O'u rhan nhw, er bod Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain (BBPA) yn dweud bod "problem [alcohol anghyfreithlon] yn cael ei gorliwio", maent hwythau hefyd yn bwrw'r bai am unrhyw werthu anghyfreithlon ar "y bwlch anferth, sy'n tyfu o hyd, rhwng tollau cwrw'r Deyrnas Unedig a rhai'r gwledydd o'n cwmpas",⁴⁴ unwaith eto fel rhan o'u hymgyrch dros leihau tollau ar gyfer eu haelodau.⁴⁵

2.12 Ar fater penodol gosod isafbris fesul uned, mae Llywodraeth yr Alban wedi dweud na ragwelant eu hisafbris o 50c yr uned yn creu temtasiwn i werthu'n anghyfreithlon.⁴⁶ Hyd yn oed pe bai'n wir bod yr isafbris yn creu'r fath demtasiwn, mae'n bwysig cofio nad yw'r ffaith

³⁸ Withers, I. (2017) *Tesco launches same day delivery across the UK*, Daily Telegraph, 24 Gorffennaf 2017.

³⁹ Gweler: <https://www.tesco.com/wine/help/default.aspx?name=deliveryoptions> [cyrchwyd 1 Rhagfyr 2017]

⁴⁰ McDonald, L. (2010) *Price-fixing is the wrong way to tackle binge drinking*, Blog y Sefydliad Materion Economaidd, 13 Awst 2010, ar-lein, ar gael trwy: <https://iea.org.uk/blog/price-fixing-is-the-wrong-way-to-tackle-binge-drinking> [cyrchwyd 21 Tachwedd 2017].

⁴¹ Yn ôl un amcangyfrif yn 2014, mae "hyd at 14,000" o bobl y Deyrnas Unedig yn bragu gartref "o bryd i'w gilydd", sef tua 25 o bob 10,000 o yfwyr mewn oed. Gweler: Lee, A. (2014) *Small beer...big business*, Daily Express, 7 Gorffennaf 2014.

⁴² Gwybodaeth o wefannau Wilko a Love Brewing [cyrchwyd 17 Tachwedd 2017].

⁴³ Gweler: <http://www.wsta.co.uk/what-we-do/policy?id=256> [cyrchwyd 17 Tachwedd 2017].

⁴⁴ Gweler: <http://www.beerandpub.com/dutyfraud> [cyrchwyd 17 Tachwedd 2017].

⁴⁵ Gweler: <http://www.beerandpub.com/campaigns/pub-jobs> [cyrchwyd 22 Tachwedd 2017].

⁴⁶ op. cit. Llywodraeth yr Alban.

bod costau cynhyrchu rhywbeth a'i werthu'n gyfreithlon yn gwneud ei werthu'n anghyfreithlon ddeniadol ddim fel arfer yn rheswm dros oddef y fath drosedd. Mae gan HMRC, Llu Ffiniau'r Deyrnas Unedig ac asiantaethau eraill amryw bwerau y gallant eu defnyddio i gosbi'r rhai sy'n symud alcohol anghyfreithlon a'i werthu, gan gynnwys, meddiannu nwyddau a gosod dirwyon sylweddol; ac ers Ebrill 2017 mae'n drosedd i unrhyw siop prynu alcohol o ffynhonnell answyddogol.⁴⁷

Llenwi coffrau'r siopau ar gost eu cwsmeriaid

2.13 Gan y bydd yr isafbris yn codi prisiau (yn unol â'i fwriad), un canlyniad posibl yw bydd yn creu incwm ychwanegol i berchnogion siopau. Mewn gwirionedd, gan fod cynyddu prisiau alcohol yn tueddu i leihau pa faint a brynir, mae cryn le i amau a fydd hyn yn digwydd.⁴⁸ Mae'n werth gofyn yn hyn o beth pam y bu'r prif archfarchnadoedd, o dan ymbarél Consortiwm Manwerthu Prydain, mor bendant a chyson eu gwrthwynebiad i'r isafbris os oedd lle iddynt dybio y byddai manteision masnachol iddynt.⁴⁹ Os daw'n amlwg bod eu safiad yn un annoeth o safbwynt masnachol, ac elw'r siopau'n cynyddu yn sgîl yr isafbris, âi rhywfaint o'r elw newydd hon at y Trysorlys ar ffurf tollau a Threth ar Werth,⁵⁰ a byddem ni'n annog trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trysorlys ynghylch sut y gellid defnyddio'r fath arian ychwanegol er mwyn cynorthwyo'r rhai sy'n dioddef oherwydd problemau alcohol.

Cynyddu cost prynu swmp o ddioid

2.14 Fel y nodwyd uchod, bydd yr isafbris yn effeithio'n fwyaf ar ddiodydd sydd ar werth am y prisiau isaf o gymharu â'u cryfder alcoholaidd, ac am nifer o rheini nid oes fawr ddim galw ar wahân i ymhlith pobl sy'n dioddef o ddibyniaeth ar alcohol.^{51, 52} Mae ymchwil yng Nghymru gan Alcohol Concern yn awgrymu y bydd llai o effaith ar brisiau'r diodydd y mae'r rhan fwyaf o yfwyr yn eu dewis, am fod y rhan fwyaf o'r rheini eisoes ar werth am bris uwchben y trothwy 50c neu fymryn bach o dano.⁵³ Er hynny, mae'n debygol y bydd yr isafbris yn effeithio ar y fath frandiau pan fyddant ar gael gyda disgownt am brynu mwy nag un (neu rhyw nifer benodol o boteli neu ganiau). Er enghraifft:

⁴⁷ Cyllid a Thollau ei Mawrhydi (2016) *The HMRC alcohol strategy: modernising alcohol taxes to tackle fraud and reduce burdens on alcohol businesses*, Llundain, HMRC.

⁴⁸ op. cit. Bailey, J. et al.

⁴⁹ Talking Retail (2009) *Retailers slam minimum pricing*, Talking Retail, 30 Medi 2009, ar-lein, ar gael trwy: <https://www.talkingretail.com/news/industry-news/retailers-slam-minimum-pricing-30-09-2009/> [cyrchwyd 21 Tachwedd 2017].

⁵⁰ Gweler: <https://www.gov.uk/Llywodraeth/publications/alcohol-duty-rate-changes/alcohol-duty-rate-changes> [cyrchwyd 17 Tachwedd 2017].

⁵¹ op cit. Goodall, A.

⁵² op cit. Chick, J. et al.

⁵³ Mae canlyniadau llawn yr arolwg ar gael gan Alcohol Concern Cymru.

- Cawsom Isla Negra Merlot ar werth yn Tesco yn Nhachwedd 2017 am £5.00 y botelaid, sef 53c yr uned. Ond trwy fanteisio ar ddisgownt o 25% am brynu 6 photelaid neu ragor, daeth y pris i lawr at 40c yr uned⁵⁴
- Yn yr un modd, roedd Captain Morgan Spiced Rum ar werth yn Morrisons am £17 am 70cl, sef 69c yr uned. Gellid prynu 2 botelaid am £22, gan leihau'r pris i 45pc yr uned.⁵⁵

2.15 Mae Consortiwm Manwerthu Prydain wedi dweud o'r blaen fod alcohol yn cael ei werthu yn swmp ar ddisgownt mewn archfarchnadoedd "er mwyn ei fwynhau gartref gyda chyfeillion a'r teulu dros amser hir",⁵⁶ ond nid ydynt erioed wedi rhoi tystiolaeth dros hynny. Mae rhywfaint o dystiolaeth o sectorau eraill bod disgowntiau am brynu rhagor yn annog cwsmeriaid i brynu pethau gyda'i gilydd ar un tro yn lle prynu'r un nwyddau fesul tipyn; ond defnyddir yr union un tactegau er mwyn denu cwsmeriaid i brynu mwy nag roeddynt yn ei fwriadu.⁵⁷ Dangosodd un astudiaeth yn Awstralia fod cwsmeriaid oedd yn manteisio ar gynigion arbennig mewn siopau yn prynu mwy o alcohol na'r rhai oedd heb fanteisio ar y fath gynigion, a bod 40% o'r cwsmeriaid a fanteisiodd ar y cynigion hyn wedi prynu swm penodol o alcohol oherwydd y cynnig.⁵⁸ Yn yr un modd, dangosodd ymchwil ar ran HMRC yn 2013 fod "cynigion ar winoedd a chyrffau rhatach yn tueddu i arwain at brynu mwy o unedau [o alcohol]" ac "o ran gwirodydd, roedd rhoi cynigion wastad yn arwain at brynu mwy o unedau".⁵⁹

2.16 O gofio'r hyn a wyddom am bwysigrwydd hwylustod a cyfleustra i arferion yfed pobl, mae'n rhesymol tybio y byddai prynu stoc mwy o alcohol a'i gadw yn tŷ yn debygol o arwain at fwy o yfed. Fel y dywedodd un person wrth ymchwilwyr Prifysgol Greenwich yn 2009, "Gallwch chi ymlacio mwy gartref...Gallwch chi fynd yn hawdd a nôl diod. Rydych chi'n eistedd, a dyna chi, fwy neu lai, yno am weddill y noson."⁶⁰

⁵⁴ Gweler: <https://www.tesco.com/groceries/en-GB/products/252954913> [cyrchwyd 20 Tachwedd 2017].

⁵⁵ Gweler: https://groceries.morrisons.com/webshop/product/Captain-Morgans-Spiced-Rum/119524011?from=offer_details¶m=1003264065&parentContainer=PROMO [cyrchwyd 20 Tachwedd 2017].

⁵⁶ Consortiwm Manwerthu Prydain (2014) *Policies and issues: food – alcohol*, ar-lein, ar gael trwy: http://www.brc.org.uk/brc_policy_content.asp?iCat=46&iSubCat=654&spolicy=Food&sSubPolicy=Alcohol [cyrchwyd 20 Awst 2014].

⁵⁷ Mohammed, R. (2013) *When it's wise to offer volume discounts*, Harvard Business Review, 25 Hydref 2013.

⁵⁸ Jones S.C. et al. (2015) *The influence of price-related point-of-sale promotions on bottle shop purchases of young adults*, Drug and Alcohol Review, 2015;34(2):170–6, dyfynnwyd yn Iechyd Cyhoeddus Lloegr (2016) *The public health burden of alcohol and the effectiveness and cost-effectiveness of alcohol control policies: An evidence review*, Llundain, Iechyd Cyhoeddus Lloegr.

⁵⁹ Rohr, C. et al. (2013) *Consumers' responsiveness to alcohol multi-buy sales promotions: results from a stated preference choice experiment*, Llundain, HMRC.

⁶⁰ Foster, J. (2009) *Why do people drink at home? An exploration of the perceptions of adult home consumption practices*, Llundain, Prifysgol Greenwich.

Yr effaith ar y rhai sy'n ddibynol ar alcohol

2.17 Lleisiwyd nifer o bryderon cwbl ddilys am effeithiau posibl yr isafbris ar bobl sy'n ddibynol ar alcohol; er enghraifft y bydd y mesur yn eu gyrru i ladrata alcohol (neu ladrata er mwyn prynu alcohol), i yfed alcoholau peryglus eraill (fel methanol), neu i ddefnyddio sylweddau eraill yn lle alcohol.

2.18 Mae'n werth ar y dechrau datblethu rhywfaint o'r dryswch termau sydd wedi tyfu yn ystod y drafodaeth gyhoeddus ynghylch yr isafbris. Taflwyd ynghyd gwahanol deipiau honedig o yfwyr. Defnyddiwyd termau fel 'meddwon', 'diotwyr rhonc', 'addicts', 'alcoholigion' ac ati yn weddol ddi-wahân i ensynio bob rhai pobl nad oes ganddynt nac awydd na gallu i reoli faint maent yn ei yfed. Mewn gwirionedd, mae'r termau sathredig hyn yn cwmpasu amrywiaeth fawr o bobl sy'n yfed symiau gwahanol iawn o alcohol dros gyfnodau gwahanol iawn, ac am resymau gwahanol iawn; ac sy'n amrywio o ran pa faint y gallant reoli eu harferion yfed.

2.19 I gryn raddau, mae yfwyr sy'n ddibynol ar alcohol yn garfan neilltuol, am eu bod yn bobl sydd wedi dod yn ffisiolegol ddibynol ar alcohol o ganlyniad i oryfed dros amser hir. O'r herwydd, mae angen iddynt yfed alcohol yn weddol o gyson er mwyn osgoi symptomau diddyfnu corfforol (sydd weithiau'n gallu lladd), ac ni ddylent roi'r gorau i'r ddiod yn gyfan gwbl heb ddadwenwyno dan oruchwyliaeth meddyg. Yn ôl amcangyfrif tua 1.4% o oedolion y wlad yn dibynol ar alcohol, sef rhyw 36,000 o bobl Cymru.⁶¹

2.20 Mae'n bosibl i yfwyr dibynol leihau pa faint maent yn ei yfed, ac ym mhrofiad gwasanaethau triniaeth mae yfwyr dibynol yn amrywio pa faint maent yn ei yfed yn ôl pa faint o alcohol sydd ar gael iddynt.⁶² Ond dim ond hyd at ryw bwynt y mae hynny'n bosibl, a phwysleisiam ni, er mwyn i fesur yr isafbris weithio'n dda a heb oblygiadau niweidiol i yfwyr dibynol, y bydd rhaid wrth wasanaethau digonol er mwyn cynorthwyo'r bobl hyn i ddianc rhag bywyd o ddiota hunan-ddinistriol. Dylai hynny gynnwys gwasanaethau sy'n estyn allan er mwyn cyrraedd yr yfwyr mwyaf anystywallt na ddangosant bob tro awydd amlwg i yfed llai.⁶³ I yfwyr nad ydynt yn ffisiolegol ddibynol ar alcohol, mae yfed llai yn broses symlach, o bosibl, er na ddylem byth danbriso anhawster ceisio cefnu ar arferion yfed hirhoedlog; ac unwaith eto, bydd angen i ni sicrhau bod gwasanaethau digonol ar gael i'w cefnogi nhw ar eu taith.

⁶¹ Pryce, R. et al. (2017) *Estimates of alcohol dependence in England based on APMS 2014, including estimates of children living in a household with an adult with alcohol dependence: prevalence, trends, and amenability to treatment*, Sheffield, Prifysgol Sheffield.

⁶² Ymddiriedolaeth Iechyd Ysbyty Fforest Sherwood (2012) *Alcohol: how to reduce your intake safely*, Sutton in Ashfield, Ymddiriedolaeth Iechyd Ysbyty Fforest Sherwood.

⁶³ Ward, M. a Holmes, M. (2014) *Alcohol Concern's Blue Light project: working with change-resistant drinkers*, Llundain, Alcohol Concern.

2.21 Ni ellir anwybyddu bod sylweddau eraill ar gael y gallai rhai droi atynt yn lle alcohol. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi nodi'n ddiweddar fod sylweddau seicoactif newydd (NPS) yn "parhau i ymddangos yn gyflym yn y farchnad" a bod "eu defnyddio ymhlith rhai carfanau yn broblem, yn enwedig ymhlith y boblogaeth ddigartref a charcharorion", dwy boblogaeth lle mae camddefnyddio alcohol hefyd yn fater o bwys.⁶⁴ Mae Llywodraeth yr Alban eisoes wedi dweud eu bod yn bwriadu comisiynu ymchwil i weld a yw yfwyr yn ymateb i'r isafbris trwy droi at sylweddau eraill, gan gynnwys troi at sylweddau anghyfreithlon.⁶⁵

2.22 Ar hyn o bryd, ni ellir dweud yn sicr y naill ffordd na'r llall a fydd yfwyr sy'n ddibynnol ar alcohol yn troi at sylweddau eraill, neu at ymddygiad troseddol er mwyn cael gafael ar alcohol. Yn galonogol, dangosodd astudiaeth o gleifion a chanddynt broblem alcohol ddifrifol mewn dau o ysbytai Caeredin, er bod "pris rhad yn aml yn rheswm dros ddewis rhyw ddiod....prin iawn roedd neb yn lladrata alcohol nac yn yfed rhywbeth arall yn lle alcohol". Daeth yr ymchwilyr i'r casgliad fod ofnau y gwelid y fath ymddygiad yn "cyd-fynd â charicatur y meddwyn" ond y "byddai rhaid wrth gryn newid yn y modd mae'r poblogaeth hon yn meddwl amdani'i hunan er mwyn i niferoedd sylweddol ohonynt gydymffurfio â'r fath ystrydeb".⁶⁶ Yn yr un modd, gwelodd ymchwilyr yn Seland Newydd, wrth holi 115 o yfwyr dibynnol, mai dim ond 2 ohonynt oedd wedi troi at alcohol diwydiannol (fel gwirod methyl), a dim ond 9 oedd wedi dwyn er mwyn diota. Daeth y tîm ymchwil i'r casgliad "fel y dangoswyd mewn papurau eraill, [mai] prin yw'r dystiolaeth fod y garfan hon yn cyrchu alcohol diwydiannol neu'n troseddu er mwyn cael alcohol pan ddaw'n amhosibl ei fforddio", gan ychwanegu "nad yw ofnau am y fath ymddygiad yn rhesymau dilys dros wrthod gosod isafbris".⁶⁷

Cyswilt: Andrew Misell, [REDACTED], [REDACTED] neu [REDACTED].
Alcohol Concern, 8 Museum Place, Caerdydd, CF10 3BG.

Mae Alcohol Concern yn un o enwau masnachol Alcohol Research UK, elusen gofrestredig rhif 1140287, cwmni rhif 7462605.

⁶⁴ Swyddfa Gartref (2017) *2017 Drug strategy*, Llundain, Swyddfa Gartref.

⁶⁵ op. cit. Llywodraeth yr Alban.

⁶⁶ Black, H., et al. (2011) *The price of a drink: levels of consumption and price paid per unit of alcohol by Edinburgh's ill drinkers with a comparison to wider alcohol sales in Scotland*, *Addiction*, 106(4), 729-736.

⁶⁷ Faulkner, C. et al. (2015) *The effect of alcohol price on dependent drinkers' alcohol consumption*, *New Zealand Medical Journal*, 18 Rhagfyr 2015, 128(1427):9-17.